SKANSC4

Cyflawni adnewyddiad, adfywiad a/neu welliant o’r croen gan ddefnyddio triniaethau llenwad croenol

Trosolwg

Mae'r safon yma'n cydfodoli â, SKANSC1: Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol yn ystod gweithdrefnau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol a SKANSC2: Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau cosmetig dewisiol nad ydynt yn llawfeddygol o fewn yr amgylchedd waith. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig uwch sy'n cyflawni triniaethau. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig uwch sy'n cyflawni triniaethau si'n defnyddio llenwadau croenol er mwyn cuddio arwyddion o heneiddio, diwygio cymesureddau a strwythurau'r wyneb. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Rhaid i'r ymarferydd esthetig gael cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu ei gyffelyb a gallu cyflawni'r swyddogaethau o fewn SFHCHS36: Cefnogaeth bywyd sylfaenol a gallu cael gafael ar gyfarpar cefnogi bywyd fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun argyfwng. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr wyneb yn wyneb gyda'r unigolyn a cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth llenwad croenol

2. trafod er mwyn sefydlu amcanion yr unigolyn, ynghŷd â'i bryderon, disgwyliadau a chanlyniadau disgwyliedig yr unigolyn er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth llenwad croenol i gynnwys:
2.1 dewisiadau triniaeth amgen
3. datblygu cynllun argyfwng gyda'r unigolyn proffesiynol ym maes iechyd a nodwyd/rhagnodwr annibynnol sydd wedi ei reoleiddio a'i hyfforddi i ddelio ag adweithiau niweidiol i lenwadau croenol
4. sefydlu'r cynllun triniaeth llenwad croenol yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol i gynnwys:
4.1 y cynllun triniaeth unigol
4.2 cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd
4.3 cynllun argyfwng
4.4 strategaeth rheoli poen
5. ailadrodd, cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y driniaeth llenwad croenol arfaethedig a rheoli poen i gynnwys:
5.1 **gwrth weithredoedd**
5.2 adweithiau niweidiol
6. sicrhau cydsyniad gwybodus ysgrifenedig yr unigolyn ar gyfer y driniaeth llenwad corfforol, gan ganiatau amserlen ddigonol i'r unigolyn wneud dewis gwybodus
7. adolygu'r cydsyniad gwybodus ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth llenwad corfforol a rheoli poen
8. dewis cynnyrch paratoi glendid effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
9. paratoi man triniaeth yr unigolyn yn unol â'r protocol triniaeth triniaeth llenwad corfforol a'r strategaethau cysylltiedig ar gyfer osgoi risg, i gynnwys:
9.1 gwneud marciau cyn triniaeth os yn briodol
10. cael gafael ar y llenwad croen asid hyalwronig a'i ddewis, gan fanylu ar y rhif cysefin G, gludogrwydd a hirhoedledd y cynnyrch er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn a'r fan sydd i'w drin, gan gynnwys y risgiau cysylltiedig
11. chwistrellu'r llenwad croen gyda nodwydd ddiheintiedig a gaiff ei defnyddio unwaith a/neu ganwla yn unol â'r protocol triniaeth llenwad croenol i gynnwys:
11.1 addasu **technegau chwistrellu**, dyfnder a lleoliad
11.2 yn unol â'r marciau cyn y driniaeth os yn berthnasol
12. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth llenwad croenol, yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
13. os oes yna adwaith neu ddigwyddiad niweidiol, mae'n rhaid i'r ymarferydd esthetig gymryd camau i'w gywiro ar fyrder, fel sydd wedi ei amlinellu o fewn y cynllun argyfwng i gynnwys:
13.1 ceisio a rhoi ar waith ymyrraeth feddygol ar unwaith gan yr unigolyn proffesiynol ym maes iechyd sydd wedi ei nodi a'i hyfforddi i ddelio gyda chymhlethdodau fel sydd wedi eu hamlinellu o fewn y cynllun argyfwng pan fod angen meddyginiaeth na ellir ei gael ond ar bresgripsiwn
14. cwblhau'r driniaeth yn unol â'r protocol triniaeth llenwad croenol, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol, i gynnwys:
14.1 cael gwared o unrhyw farciau cyn triniaeth, os yn berthnasol

15. cymryd a chadw delweddau gweledol cydsyniol o fan triniaeth yr unigolyn yn unol â gofynion yswiriant, polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
16. cwblhau a chadw cofnodion triniaeth gosemtig yr unigolyn sydd heb fod yn llawfeddygol yn unol â deddfwriaeth
17. defnyddio arfer adfyfyriol i werthuso’r driniaeth llenwad croenol a gweithredu’n briodol
18. rhoi a sicrhau cadarnhad eich bod wedi derbyn cyfarwyddiadau a chyngor geiriol ac ysgrifenedig a roddwyd i’r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth i gynnwys:
18.1 manylion cyswllt yr ymarferwyr esthetig
18.2 cynllun argyfwng
18.3 cynllun wrth gefn os bydd rhywun yn absennol
19. cofnodi’r canlyniad y driniaeth llenwad croenol a’r gwerthusiad ohoni er mwyn cytuno ar ac hysbysu triniaethau yn y dyfodol
20. trafod a chytuno ar driniaethau yn y dyfodol gyda’r unigolyn

SKANSC4

Cyflawni adnewyddiad, adfywiad a/neu welliant o'r croen gan ddefnyddio triniaethau llenwad croenol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd cydweithio gyda phobl broffesiynol gymwys er mwyn cefnogi arferion gwaith effeithiol a diogel

2. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu
3. pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol
4. pwysigrwydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, y polisïau, y wybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am arfer orau ddiweddaraf
5. yr **anatomeg a'r ffisioleg** ***sy'n berthnasol i'r safon yma***
6. y mathau o, cyfansoddiad ac effeithiau ffarmacolegol y cyfansoddion cemegol mewn toddiadau llenwad croenol, i gynnwys:
6.1. effaith ffisiolegol y toddiant asid hyalwronig ar anatomeg yr wyneb, meinwe'r croen a'r cyflenwad gwaed
7. sut i addasu technegau chwistrellu er mwyn dodi toddiant asid hyalwronig yn ddiogel o dan feinwe'r croen i mewn i'r stwythurau gwaelodol er cwrdd ag anghenion yr unigolyn
***8. yr* *adweithiau niweidiol** sy'n gysylltiedig â'r driniaeth llenwad croenol i gynnwys:
8.1 gwybodaeth o fannau peryglus a sut i'w hosgoi
8.2 llenwadau croenol Asid nad yw'n Hyalwronig (lled barhaol)
9. sut i gymryd y camau cywir os bydd yna adwaith neu ddigwyddiad niweidiol i gynnwys:
9.1 pam a pha bryd mae angen ymyrraeth feddygol
10. y **strategaethau ar gyfer osgoi risg**
11. pwysigrwydd derbyn a dilyn cyfarwyddiadau gan yr unigolyn proffesiynol ym maes gofal iechyd /rhagnodwr annibynnol sy'n cael ei reoleiddio os bydd adwaith niweidiol
12. diben, defnydd a chyfyngiadau triniaethau llenwad croenol, mewn perthynas â'r canlynol:
12.1 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol
12.2 hanes trinaethau cosmetig blaenorol nad oeddynt yn llawfeddygol a/neu driniaethau deintyddol
12.3 ffactorau perthnasol sy'n ymwneud â'r ffordd o fyw
12.4 meddyginiaethau a chyflyrau meddygol wedi eu gwrtharwyddo
12.5 addasrwydd corfforol a seicolegol yr unigolyn ar gyfer y driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol
12.6 disgwyliadau'r unigolyn
12.7 rheoli ymateb gorimiwnedd
12.8 rheoli anaffylacsis
13. y gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol ar gyfer 'dyfeisiadau meddygol'
14. y gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol ar gyfer cael gafael ar, cofnodi a gweinyddu llenwad croenol, i gynnwys:
14.1 enw'r cynnyrch
14.2 rhif y llwyth
14.3 dyddiad y daw i ben
14.4 dalennau data'r deunyddiau
14.5 cadw
14.6 gwarediad

14.7 archwilio ac atebolrwydd
15. y mathau o reolaeth poen a’r risgiau cysylltiedig
16. y gofynion deddfwriaethol a chyfyngiadau ar gyfer canfod, cadw a defnyddio anesthetigion argroenol wedi eu trwyddedu
17. y cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth llenwad croenol
18. pam ei bod yn bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon, disgwyliadau’r unigolyn a’r canlyniadau a ddymunir a chytuno ar y cynllun triniaeth cosmetig nad yw’n llawfeddygol
19. pwysigrwydd defnyddio **cymhorthion gweledol** i hysbysu’r unigolyn o’r effeithiau corfforol
20. y strwythurau taliadau a’r dewisiadau ar gyfer triniaeth
21. y gofynion deddfwriaethol a digolleddiad ar gyfer sicrhau cydsyniad gwybodus wedi’i lofnodi ar gyfer y driniaeth llenwad croenol
22. pam ei bod yn bwysig caniatau amser i’r unigolyn ystyried cyn cadarnhau a chytuno i dderbyn triniaeth gosmetig ddewisiol nad yw’n llawfeddygol
23. pwysigrwydd sicrhau cydsyniad ysgifenedig ar gyfer triniaeth llenwad croenol a strategaeth rheoli poen
24. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
25. pwysigrwydd cadw at y **protocol triniaeth llenwad croenol** *
26. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y driniaeth
27. pwysigrwydd cadw at y cynllun argyfwng os bydd yna adwaith niweidiol
28. y gofynion deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol ar gyfer cymryd a chadw delweddau gweledol o fan triniaeth yr unigolyn
29. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion meddygol yr unigolyn a’i driniaeth gosmetig nad yw’n llawfeddygol
30. canlyniadau disgwyliedig y driniaeth llenwad croenol
31. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae’n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol
32. sut i goladu, dadansoddi, crynhoi a chofnodi adborth gwerthuso mewn modd clir a chryno
33. pwysigrwydd cofnodi canlyniad y driniaeth llenwad croenol a’r gwerthusiad ohoni
***34. y* cyfarwyddiadau** a’r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth llenwad croenol

Cwmpas/Ystod

Gwybodaeth Ychwanegol

Disgwylir bod yr ymarferydd estheteg sy'n ymgeisio am y safon yma eisoes â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau a nodir o fewn canllawiau triniaeth yr ymarferydd estheteg a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cosmetig nad yw'n llawfeddygol.

Disgwylir i'r ymarferydd fod eisoes yn gallu dangos gallu mewn penderfynu'r gwrtharwyddion cymharol (cyfyngol) **a llwyr (ataliol) ar gyfer y triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol. Yn ogystal â hyn, dylai'r ymarferydd esthetig allu adnabod adweithiau neu ddigwyddiadau niweidiol a gweithredu ar fyrder i'w cywiro fel ag y cytunwyd o fewn y cynllun argyfwng.

Disgwylir i'r safon yma gael ei defnyddio ar y cyd â SKANSC1: Rhoi arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol ar waith a'u cynnal yn ystod triniaethau cosmetig dewisiol nad ydynt yn llawfeddygol a SKANSC2: Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau cosmetig dewisiol nad ydynt yn llawfeddygol.

Dylai tystiolaeth ar gyfer eitemau a restrir o fewn yr amrediad/rhychwant gael ei ddangos yn unol â'r math penodol o driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol sy'n cael ei chyflawni.

Amcanion yr unigolyn

1. diogelwch
2. gwrth heneiddio
3. ychwanegiad at feinwe’r croen
4. adferol

Gwrth weithredoedd
1. hyperemia
2. anafiadau
3. cleisio
4. chwydd gwyn

Technegau chwistrellu
1. bolws
2. mewngroenol
3. meicro-bapwlaidd
4. edafu unionlin
5. croedlinellu
6. gwyntyllu
7. pabellu

Anatomeg a ffisioleg
*

1. strwythur a swyddogaeth holl systemau'r corff a'u cyd-ddibynniaeth ar ei gilydd
2. patholegau'r croen a systemig
3. patholegau digwyddiad niweidiol difrifol
4. gwybodaeth sylfaenol am ffarmacoleg a gwyddorau
5. yr effeithiau gaiff meddyginiaethau ar y croen a chyhyrau
6. astudiaeth o broses heneiddio'r croen a'r meinwe oddi tano/effeithiau adamsugnad yr asgwrn a dealltwriaeth o anatomeg cymhleth yr wyneb a cyflenwad gwythiennol a rhedwelïol o'r gwaed

Adweithiau niweidiol

1. haint
2. afreoleiddrau lliwiad
3. cyfog
4. adwaith alergaidd
5. anaffylacsis
6. gwenwyndra moddion/anghydnawsedd/ gwrtharwyddion
7. llesmair fasofagol
8. anghymesuredd
9. cyffyrddadwyedd y llenwad
10. dallineb
11. necrosis
12. nodwlau
13. achludiad fasgwlaidd
14. effaith tindal
15. achludiad rhedwelïol
16. achludiad cywasgiad
17. mudiad o'r llenwad croenol
18. dysmorphia o'r corff
19. llai o ddraeniad lymffatig
20. gronyndyfiannau
21. anafiadau wedi eu hachosi gan nodwyddau
22. strôc
23. marwolaeth
24. emboledd yr ysgyfaint

Strategaethau i osgoi risg

1. cynllun argyfwng
2. asesiad(au) risg
3. hanes meddygol caffaeledig
4. cynllun(iau) triniaeth
5. mannau triniaeth cyfyngol
6. cyfarwyddiadau a chyngor cyn ac ar ôl
7. osgoi defnyddio heb drwydded
8. brechiadau

9. cymhwyster cymorth cyntaf yn y gwaith a chefnogaeth bywyd sylfaenol neu ei gyffelyb
10. arferion gwaith iechyd a diogelwch cyffredinol
11. atal a rheoli haint
12. amgylchedd waith
13. cydweithrediad gyda rhywun proffesiynol ym maes gofal iechyd, rhagnodwr annibynnol wedi ei reoleiddio/pobl broffesiynol berthnasol
14. protocol presgripsiwn deddfwriaethol
15. rheoli moddion
16. cydsyniad gwybodus
17. rheoli data
18. archwiliad ac atebolrwydd
19. dealltwriaeth o’r ffarmacoleg
20. gwybodaeth weithio o anatomeg yr wyneb a’r gwddf
21. rheoli gwastraff
22. asesiad o les corfforol ac emosiynol yr unigolyn

Cymhorthion gweledol

1. delweddau esboniadol
2. diagramau esboniadol
3. marciau cyn triniaeth

Protocol triniaeth llenwad croenol

1. amgylchedd waith
2. iechyd a diogelwch
3. cynllun rheoli risg
4. atal a rheoli haint
5. unigolyn proffesiynol ym maes gofal iechyd /rhagnodwr annibynnol sy’n cael ei reoleiddio
6. cynllun argyfwng
7. cynllun triniaeth
8. cydsyniad gwybodus
9. pobl broffesiynol briodol
10. rheoli data
11. archwilio ac atebolrwydd
12. cyfarwyddiadau a chyngor
13. rheoli gwastraff
14. ymarfer adfyfyriol wedi ei seilio ar dystiolaeth

Cyfarwyddiadau

*
1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol y rhagnodwr annibynnol wedi ei reoleiddio unigol a’r ymarferydd esthetig
2. cynllun argyfwng
3. disgwyliadau ar ôl triniaeth ac amserlenni cysylltiedig
4. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl triniaeth

5. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
6. triniaethau yn y dyfodol
7. gweithdrefn cwynion neu brotocol pryderon

Geirfa